# Gradd Sylfaen Artist-Ddylunydd Gwneuthurwr



**Yn gryno**

Bydd y Radd Sylfaen Artist-Ddylunydd Gwneuthurwr yn eich addysgu sut i ddatblygu'n greadigol eich arddull eich hun, gan adlewyrchu'r ffordd ddyfeisgar yr ydych yn gweld y byd sy'n newid yn gyson, ac yn cyfathrebu ag ef.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Oes gennych ddawn greadigol

... Oes gennych sgiliau a diddordeb mewn dylunio, crefft a chreu

... Ydych eisiau datblygu eich sgiliau i symud ymlaen i yrfa mewn darlunio, crefft a chreu

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Creu sydd wrth galon y cwrs GS Artist-Ddylunydd Gwneuthurwr. Byddwch yn magu profiad ymarferol gyda deunyddiau megis metelau, gwydr a chlai i goed a thecstilau. Byddwch yn

defnyddio technegau traddodiadol ynghyd â'r dechnoleg ddiweddaraf i ddefnyddio dulliau newydd a gwreiddiol o greu.

Byddwch yn datblygu eich arddull unigryw eich hun ac yn ystyried ble mae eich gwaith wedi'i leoli o fewn ymarfer creadigol. Byddwch yn dysgu oddi wrth artistiaid, dylunwyr a gwneuthurwyr gweithredol proffesiynol, gan rannu eu brwdfrydedd a chaffael sgiliau newydd.

Clai -Modelu, taflu, gwneud mowldiau, castio, tanio a gwydro
Metel - gwaith gofaint bychan mewn copr, pres ac arian, weldio, sodro ac enamlo
Pren - Gwaith saer, argaenwaith
Gwydr - Castio, ymdoddi, slympio a pheintio
Tecstilau - Pwytho, printio ac adeiladu
Ffabrigiad Digidol - argraffu 3D, torri â laser, modelu digidol 3D, sganio, pwytho digidol, tecstilau print digidol

Byddwch yn dysgu i weithio'n annibynnol a chreadigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau, wrth i ni gefnogi eich brwdfrydedd tuag at ddylunio, gweithgynhyrchu, marchnata a gwerthu eich gwaith eich hun.

Byddwn yn eich cefnogi wrth i chi ddatblygu eich sgiliau proffesiynol ym mhob aseiniad, gan gynnwys sgiliau datrys problem yn greadigol, rheoli prosiectau, a gweithio i friff a chwblhau gwaith i derfyn amser.

Drwy hunan-fyfyrio parhaus, byddwch yn datblygu ac yn adnabod cryfderau personol, gan eich helpu i gydnabod sgiliau trosglwyddadwy a sut y byddant yn ddefnyddiol ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

Mae'r modiwlau yn cynnwys:

Blwyddyn 1

Pwnc: hyfforddiant sylfaenol – 40 credyd

Pwnc: prosiect unigol - 20 credyd

Byddwch yn dechrau eich blwyddyn gyntaf â gweithdai a fydd yn eich cyflwyno i'r deunyddiau, y prosesau a'r cyfarpar y bydd eu hangen arnoch ar gyfer ymarfer creadigol – o glai, tecstilau, pren, gwaith gofaint bychan, gwydr a ffabrigiad digidol. Yn ogystal, byddwch yn archwilio'r cysyniadau allweddol sydd yn ymarfer celf a dylunio drwy wneud.

Maes un: cydweithredu – 20 credyd*

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn cael eich ysbrydoli gan ddisgyblaethau eraill, artistiaid a chydweithio â myfyrwyr eraill i adeiladu ar eich profiad ac ehangu eich creadigrwydd – a defnyddio eich sgiliau a'ch mewnwelediad artistig i'w cymhwyso i'ch gwaith.

Cytser: cysyniad – 40 credyd

Bydd y modiwl hwn yn eich cyflwyno i fyd ehangach syniadau, theori ac astudiaethau cyd-destunol i'ch helpu i ddatblygu eich sgiliau ymchwil academaidd a'ch gallu i feddwl yn feirniadol.  Byddwch yn canolbwyntio ar feysydd penodol o ddiddordeb mewn grwpiau astudio a byddwch yn ymgyfarwyddo â'r ymchwil traws-ddisgyblaethol cyffrous mewn celf a dylunio.

Blwyddyn 2

Pwnc: Creu – 40 credyd

Yn y modiwl hwn byddwch yn dechrau troedio tir newydd, llai cyffyrddus – yn cymryd risgiau ac yn arbrofi gyda phrosesau deunyddiol a thechnolegau newydd. Byddwch yn datblygu eich sgiliau mewn meysydd allweddol – o glai, tecstilau, pren a metel hyd at argraffu 3D, torri â laser. Drwy feirniadaeth cyfoedion, seminarau a thiwtorialau thematig, byddwch yn myfyrio ar eich cryfderau a'ch diddordebau artistig, ac yn cyflwyno'ch ymchwil nôl i'r grwp.

Maes Dau: archwilio – 40 credyd*

Byddwch yn ehangu eich profiadau â phrosiectau heriol a fydd wedi'u dylunio i'ch annog i archwilio ac i arbrofi y tu allan i'ch disgyblaeth benodol. Bydd y cyfle gweddnewidiol hwn yn arwain at feddwl newydd ac at bethau newydd - ac yn agor pob math o bosibiliadau yn y dyfodol. Byddwch yn ymgymryd â phrosiectau cyffrous a fydd yn eich herio mewn ffyrdd newydd.

Cytser: Golwg feirniadol – 40 credyd

Drwy fwrw golwg feirniadol dros lenyddiaeth, cyfnodolion ac arddangosfeydd, byddwch yn hogi eich gallu i roi eich ymarfer dylunio o fewn cyd-destun. Cewch gyfleoedd hefyd i ryngweithio gyda myfyrwyr a staff a threiddio mwy i'r meysydd a fydd o ddiddordeb i chi.

Byddwch yn mwynhau rhaglen amrywiol o deithiau diwylliannol ac ysbrydoledig, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan roi i chi'r cyfle i ymweld ag orielau a lleoliadau perthnasol eraill a fydd yn llywio ac yn gwella eich gwaith.

Byddwch yn rhan o amgylchedd creadigol amrywiol sy'n rhoi mynediad i chi at bob math o gyfleusterau i safon y diwydiant, gan elwa o offer traddodiadol ac uwch dechnoleg. Yn ystod y

ddwy flynedd bydd gennych eich man gweithio eich hun o fewn y stiwdio ddarlunio a'r cyfle i weithio ag ystod o weithdai a chyfleusterau arbenigol eraill yn y coleg.

Cewch eich asesu drwy waith cwrs a phortffolio. Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus byddwch yn derbyn Gradd Sylfaen Artist-Ddylunydd Gwneuthurwr wedi'i achredu gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Dylech allu rheoli eich amser eich hun, bod yn ymwybodol o'ch rhaglen astudio, mynychu ac ymgysylltu yn eich dosbarthiadau, bod â synnwyr o bwrpas bob amser a gofyn am gymorth pryd bynnag y byddwch ei angen.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y cwrs hwn yn rhoi i chi'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ar gyfer gyrfa mewn darlunio, crefft a chreu neu symud ymlaen i flwyddyn olaf y cwrs gradd Artist-Ddylunydd: Gwneuthurwr BA (Anrh) ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r cwrs hwn wedi ei ryddfreinio gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

Gall y cwrs yma cael ei hastudio'n llawn amser neu rhan amser.

Gorfodol

Pecyn Deunyddiau i Artist-Ddylunydd Gwneuthurwr: £i'w gadarnhau

Trip Llundain: £50

Costau Argraffu Arddangosfa: £30 - £50

Costau Teithio: £100

Ddim yn orfodol

Trip Rhyngwladol: £400 - £1000